OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3165 (Cy.276)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

Gwnaed - - - - 5 Tachwedd 2007
Wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 7 Tachwedd 2007
Yn dod i rym - - 28 Tachwedd 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 17(1), 26(1)(a) a (3), 31 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a pharagraffau 1 a 4(b) o Atodlen 1 iddi(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy (**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, ac yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p. 16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p. 40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran nifer ac enwau Paneli Gwyddonol Parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau dŵr Mwynol Naturiol, dŵr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 28 Tachwedd 2007.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "crynodiad neu werth a ragnodwyd" ("*prescribed concentration or value*"), o ran unrhyw baramedr, yw'r crynodiad neu werth a bennir ynghylch y paramedr hwnnw yn unrhyw Dabl yn Rhan 2 o Atodlen 2 fel y mesurir ef drwy gyfeirio at yr uned fesur a bennir felly;

ystyr "Cyfarwyddeb 80/777" ("*Directive 80/777*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 80/777/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch datblygu a marchnata dŵr mwynol naturiol(**4**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/83" ("*Directive 98/83*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ynghylch ansawdd dŵr a fwriedir ar gyfer ei yfed gan bobl(**5**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2003/40/EC" ("*Directive 2003/40/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/40/EC sy'n sefydlu'r rhestr, terfynau crynodiad a gofynion labelu ar gyfer ansoddau dŵr mwynol naturiol a'r amodau ar gyfer defnyddio aer a gyfoethogwyd gan osôn ar gyfer trin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynhonnau(**6**);

ystyr "dŵr mwynol naturiol" ("*natural mineral water*") yw dŵr—

(a) sy'n iachus yn ficrobiolegol;

(b) sy'n tarddu o lefel trwythiad neu ddyddodion tanddaearol ac sy'n codi allan o ffynnon a dapiwyd mewn allanfa neu allanfeydd naturiol neu wedi'u tyllu;

(c) y gellir ei wahaniaethu'n amlwg oddi wrth dŵr yfed cyffredin oherwydd y nodweddion canlynol a gafodd eu cadw'n ddifreg oherwydd tarddiad tanddaearol y dŵr, a rhaid bod y tarddiad hwnnw wedi cael ei ddiogelu rhag pob risg o lygredd—

(i) ei natur, a nodweddir gan ei gynnwys mwynol, elfennau hybrin neu ansoddau eraill a, pan fo hynny'n briodol, gan effeithiau penodol,

(ii) yn ei gyflwr gwreiddiol; ac

(ch) sydd am y tro'n cael ei gydnabod yn unol â rheoliad 4;

ystyr "dŵr mwynol naturiol eferw" ("*effervescent natural mineral water*") yw dŵr mwynol naturiol sydd, yn ei ffynhonnell neu ar ôl ei botelu, yn gollwng carbon deuocsid yn ddigymell ac mewn dull a welir yn eglur o dan amodau tymheredd a phwysedd arferol;

ystyr "dŵr yfed" ("*drinking water*") yw dŵr a fwriadwyd ar gyfer ei yfed gan bobl heblaw —

(a) dŵr mwynol naturiol; neu

(**4**) OJ Rhif L229, 30.8.80, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1882/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu at Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC y darpariaethau ynghylch Pwyllgorau sy'n cynorthwyo'r Comisiwn wrth arfer ei bwerau gweithredu a osodir mewn offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o Gytuniad EC (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t.1).
(**5**) OJ Rhif L330, 5.12.98, t.32.
(**6**) OJ Rhif L126, 22.5.2003, t.34.

(b) dŵr a botelwyd mewn potel wedi'i marcio neu wedi'i labelu "spring water" neu "dŵr ffynnon" yn unol â rheoliad 11;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae i "hysbyseb" a "hysbysebu" yr ystyr a roddir i "*advertisement*" ac "advertise" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**7**);

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cael rhywbeth yn eich meddiant i'w werthu, cynnig neu ddangos neu hysbysebu rhywbeth i'w werthu;

ystyr "paramedr" ("*parameter*") yw priodwedd, elfen, organeb neu sylwedd a restrir yn yr ail golofn o unrhyw Dabl yn Rhan 2 o Atodlen 2;

ystyr "potel" ("*bottle*") yw cynhwysydd caeedig o unrhyw fath y gwerthir dŵr ynddo i'w yfed gan bobl neu o'r lle y daw dŵr a werthir i'w yfed gan bobl ohono, a dehonglir "potelu" ac ymadroddion cytras yn unol â hynny; ac

ystyr "techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn" ("*authorised ozone-enriched air oxidation technique*") yw—

(a) triniaeth ag aer a gyfoethogwyd ag osôn a awdurdodwyd ac a gyflawnwyd yn unol ag Atodlen 1; neu

(b) yn achos dŵr a ddygwyd i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig neu o Wladwriaeth AEE arall, triniaeth sy'n cydymffurfio ag Erthygl 5 o Gyfarwyddeb 2003/40 fel y'i gweithredir yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig neu'r Wladwriaeth AEE honno.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yng Nghyfarwyddeb 80/777 neu Gyfarwyddeb 98/83 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb o dan sylw.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â Rhif , ac eithrio lle yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodiad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yng Nghyfarwyddeb 80/777.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at farcio neu labelu potel yn cynnwys y marcio a'r labelu a wnaed cyn bod unrhyw ddŵr yn cael ei botelu a'r marcio a'r labelu a wnaed ar ôl potelu.

Esemptiadau

3.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw ddŵr —

(a) sydd â thrwydded cynnyrch a ddyroddwyd o dan ddarpariaethau Deddf Meddyginiaethau 1968(**8**), neu awdurdodiad marchnata o fewn ystyr Rheoliadau Meddyginiaethau ar gyfer Defnydd Dynol (Awdurdodiadau Marchnata etc.) 1994(**9**), neu awdurdodiad marchnata o fewn ystyr Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**10**);

(b) sy'n ddŵr mwynol naturiol a ddefnyddir yn ei darddiad at ddibenion iachaol mewn sefydliadau thermol neu hydrofwynol;

(c) nas bwriadwyd ar gyfer ei werthu i'w yfed gan bobl; neu

(ch) sy'n ddŵr mwynol naturiol y bwriedir ei allforio i wlad heblaw Gwladwriaeth AEE.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddognau o rew a becynnwyd a fwriadwyd ar gyfer eu defnyddio i oeri bwyd.

(**7**) O.S. 1996/1499, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**8**) 1968 p. 67.
(**9**) O.S. 1994/3144; y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) O.S. 2005/2745.

RHAN 2

dŵr mwynol naturiol

Cydnabyddiaeth fel dŵr mwynol naturiol

4.—(1) Cydnabyddir dŵr yn ddŵr mwynol naturiol—

(a) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear yng Nghymru, rhoddir cydnabyddiaeth gan yr awdurdod perthnasol yn unol â Rhan 1 o Atodlen 3;

(b) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, cydnabyddir ef yn y fan honno yn unol â Chyfarwyddeb 80/777 gan awdurdod cyfrifol yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig;

(c) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn Gwladwriaeth AEE heblaw'r Deyrnas Unedig, cydnabyddir ef yn y fan honno yn unol â Chyfarwyddeb 80/777 gan awdurdod cyfrifol yn y Wladwriaeth AEE honno; ac

(ch) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn gwlad heblaw Gwladwriaeth AEE—

(i) cydnabyddir ef gan yr Asiantaeth, yn unol â Rhan 2 o Atodlen 3, neu

(ii) mae ganddo gydnabyddiaeth gyfartal a roddir gan awdurdod cyfrifol —

(aa) rhan arall o'r Deyrnas Unedig, neu

(bb) Gwladwriaeth AEE heblaw'r Deyrnas Unedig.

(2) Os gwelir, o ran unrhyw ddŵr a gydnabuwyd o dan baragraff (1)(a) neu (ch)(i),—

(a) drwy ddadansoddiad yn unol â Rhan 3 o Atodlen 3, na fodlonir gofynion paragraff 3 o'r Rhan honno;

(b) na fodlonir gofynion Atodlen 4; neu

(c) nad yw cynnwys y dŵr yn unol â pharagraff 2(c) o Ran 1 neu, yn ôl y digwydd, paragraff 2(c) o Ran 2 o Atodlen 3,

caniateir i'r awdurdod perthnasol neu, yn ôl y digwydd, yr Asiantaeth, dynnu'r gydnabyddiaeth honno yn ôl hyd nes y bodlonir y gofynion o dan sylw.

(3) Os—

(a) bydd yr awdurdod perthnasol yn peidio â rhoi cydnabyddiaeth o ddŵr neu'n ei thynnu'n ôl; neu

(b) bydd yr Asiantaeth yn peidio â rhoi cydnabyddiaeth o ddŵr neu'n ei thynnu'n ôl;

caiff y person sy'n datblygu neu sy'n dymuno datblygu'r ffynnon y mae'r dŵr hwnnw'n tarddu ohoni neu, os yw'n wahanol, y person sy'n berchen y tir y lleolir y ffynnon arno, wneud cais i'r Asiantaeth am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

(4) Pan wneir cais am adolygiad o benderfyniad o dan baragraff (3), rhaid i'r Asiantaeth ymchwilio i'r mater fel y mae'n ystyried sy'n briodol ac, ar ôl iddo ystyried canlyniadau'r ymchwiliad hwnnw ac unrhyw ffeithiau perthnasol a ddaw i'r golwg drwyddo, rhaid iddo naill ai—

(a) cadarnhau'r penderfyniad; neu

(b) cyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i roi neu adfer, neu adfer ei hun, fel y bo'n briodol, gydnabyddiaeth o'r dŵr o dan sylw.

(5) Caiff person sy'n datblygu ffynnon yr echdynnir dŵr ohoni a gydnabyddir yn ddŵr mwynol naturiol yn unol â pharagraff (1)(a) neu (ch)(i), wneud cais i'r awdurdod perthnasol neu i'r Asiantaeth, fel y bo'n briodol, i gael tynnu'r gydnabyddiaeth honno yn ôl.

(6) O ran yr awdurdod perthnasol—

(a) os bydd yn rhoi cydnabyddiaeth, yn ei hadfer neu'n ei thynnu'n ôl, rhaid iddo ar unwaith hysbysu'r Asiantaeth o'r ffaith honno;

(b) os hysbysir ef o unrhyw newid i ddisgrifiad masnachol dŵr mwynol naturiol neu i enw ffynnon yr echdynnir dŵr mwynol naturiol ohoni, rhaid iddo ar unwaith hysbysu'r Asiantaeth o'r newid hwnnw; neu

(c) os cyfarwyddir ef gan yr Asiantaeth o dan baragraff (4)(b) i roi neu adfer cydnabyddiaeth, rhaid iddo ar unwaith gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

(7) O ran unrhyw gydnabyddiaeth o ddŵr fel dŵr mwynol naturiol a roddir o dan Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol 1985(**11**) neu Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, dŵr Ffynnon a dŵr Yfed wedi'i Botelu 1999(**12**) ac sy'n bodoli ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear yng Nghymru, rhaid ei thrin fel pe bai'n gydnabyddiaeth gan yr awdurdod perthnasol o dan baragraff (1)(a).

(b) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn gwlad heblaw Gwladwriaeth AEE, rhaid ei thrin fel pe bai'n gydnabyddiaeth a roddwyd gan yr Asiantaeth o dan baragraff (1)(ch)(i); a

(8) Mae cyhoeddiad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o enw unrhyw ddŵr fel dŵr mwynol naturiol a gydnabyddir yn y Gymuned at ddibenion Cyfarwyddeb 80/777, ac eithrio pan roddwyd y gydnabyddiaeth yn unol ag Atodlen 3, yn dystiolaeth derfynol bod y dŵr hwnnw'n cael ei gydnabod at ddibenion y Gyfarwyddeb honno.

(9) Mae Atodlen 5 yn effeithiol at y dibenion a bennir yn Atodlen 3.

Datblygu ffynhonnau dwr mwynol naturiol

5.—(1) Ni chaiff neb ddatblygu unrhyw ffynnon at ddibenion marchnata'r dŵr ohoni fel dŵr mwynol naturiol oni bai—

(a) bod y dŵr a echdynnwyd o'r ffynnon honno'n ddŵr mwynol naturiol;

(b) bod yr awdurdod perthnasol wedi rhoi caniatâd i'r ffynnon honno gael ei datblygu; a

(c) bod gofynion Atodlen 4 yn cael eu bodloni.

(2) Os gwelir yn ystod y datblygu bod dŵr mwynol naturiol wedi cael ei lygru ac y byddai potelu'r dŵr yn mynd yn groes i baragraff 6, 7 neu 8 o Atodlen 4, ni chaiff neb ddatblygu'r ffynnon yr echdynnir y dŵr ohoni hyd nes bod achos y llygredd wedi'i ddileu ac y gallai potelu'r dŵr gydymffurfio â'r paragraffau hynny.

Triniaethau i ddŵr mwynol naturiol ac ychwanegiadau ato

6.—(1) Ni chaiff neb roi dŵr mwynol naturiol yn ei gyflwr wrth y tarddiad —

(a) drwy unrhyw driniaeth heblaw—

(i) techneg awdurdodedig ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn,

(ii) gwahanu ei elfennau ansefydlog, megis cyfansoddion haearn a sylffwr, drwy hidlo neu ardywallt, p'un a cheir ocsigeniad cyn hynny ai peidio, i'r graddau nad yw'r driniaeth yn newid cyfansoddiad y dŵr o ran yr ansoddau hanfodol sy'n rhoi iddo ei briodoleddau, neu

(iii) dilead cyfan neu rannol o garbon deuocsid rhydd drwy ddulliau cyfan gwbl ffisegol; neu

(b) unrhyw ychwanegiad heblaw cyflwyno neu ailgyflwyno carbon deuocsid i gynhyrchu dŵr mwynol naturiol eferw.

(**11**) O.S. 1985/71, a ddirymwyd gan O.S. 1999/1540.
(**12**) O.S. 1999/1540, a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/656, O.S. 2003/3042 (Cy.287) ac O.S. 2004/1509 (Cy.158).